



Ionawr 27ain 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma. Iwan a Keith Rowlands sydd yn cymryd yr oedfa gyda Rhiannon Humphreys yn cyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Chwefror 3ydd - Oedfa'r Pentrefi - Llantrisant, Llanharan a Meisgyn. Eleri yn cyfeilio

Chwefror 10fed - Y Parchg Dyfrig Rees, Ysg Cyffredinol yr enwad, gyda Carwyn Lloyd Jones, a Bethan yn cyfeilio

Chwefror 17 - oedfa i'r teulu gyda Dafydd a Lowri Roberts gyda Sian yn cyfeilio

Chwefror 24ain Parchg Gethin Rhys gydag Eluned Davies Scott gydag Eleri yn cyfeilio

Mawrth 3ydd - Oedfa'r Pentrefi gyda Phentre'r Eglwys a Thonteg gyda Sian yn cyfeilio

Mawrth 10fed - Emlyn Davies gyda Carol Williams, gyda Rhiannon yn cyfeilio

Mawrth 17eg - Sul Teuluol gyda Wendy, Huw a Beth, gyda Sian yn cyfeilio

Mawrth 24ain - Y Parchg. Gethin Rhys, gyda Wyn Jones a Bethan yn cyfeilio

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com

Merched y Tabernacl

Dydd Mercher 6 Chwefror 1.15 yp
Coleg Cerdd a Drama Caerdydd

Datganiad o ganeuon ac unawdau telyn o waith:
Dilys Elwyn Edwards, Morfydd Llwyn Owen
a Grace Williams.

Bydd y caffi ar agor trwy'r dydd.
Croeso cynnes i bawb.

Codwyd £70 yn y te prynhawn Nadolig tuag at ein cronfa elusennau lleol. Diolch am y cacennau bendigedig a'r cymorth.

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

Aelodau Llantrisant a'r Cylch

Mae cais ar i'r aelodau sy'n byw yn ardal Llantrisant, Meisgyn, Pontyclun a Llanharan i gwrdd am ychydig funudau ar ddiwedd yr oedfa bore 'ma. Diolch yn fawr.

SIOE GERDD

Am 4 o'r gloch pñawn Sul y 3ydd o Chwefror cynhelir cyfarfod yn y Ganolfan i ddechrau'r paratodau ar gyfer llwyfannu'r Sioe Gerdd, sef prif ddigwyddiad yr eglwys yn 2020 i ddathlu adeiladu'r Tabernacl yn 1870. Y newyddion gwych yw bod Wyn Jones wedi cytuno i gyfarwyddo'r gwaith ond bydd angen tîm cryf o wirfoddolwyr brwd i'w gynorthwyo wrth lunio'r sgript, paratoi'r props a threfnu'r gwisgoedd ac yn y blaen ynghyd â chriw o berfformwyr o bob oed i'w llwyfannu. Er mwyn sicrhau ei llwyddiant rydym yn apelio'n daer ar i bawb sy'n fodlon cefnogi'r fenter mewn unrhyw ffordd i fynychu'r cyfarfod agoriadol. Bydd cyfle yno i wyntyllu syniadau am natur a chynnwys y sioe ac os nad yw'r dyddiad yn gyfleus yna mae pob croeso i chi gynnig awgrymiadau ymlaen llaw i Wyn (wynjones73@hotmail.co.uk).

Diolch

Eglwysi Dementia-Gyfeillgar Siaradwyr:

Beti George a'r Dr. Zoe Morris Williams
7 o'r gloch

Nos Iau 21ain Chwefror 2019
Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth

Estynnir croeso cynnes i bawb

Trefnwyd gan Gyfundeb Dwyrain Morgannwg o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

TALEBAU NADOLIG 2018

Cyrhaeddodd casgliad helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal £640, sy'n golygu bod talebau gwerth £20 wedi eu cyflwyno i 25 o bobl ifanc. Gobeithio iddyn nhw fwynhau rywfaint o naws y Nadolig wrth eu derbyn, a'u gwario dan arweiniad eu gweithwyr cymdeithasol. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniadau hael.

ELUSENNAU 2019

APÊL MADAGASCAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Fe roddodd yr Ysgol Sul a'r Twmiaid ddechrau anrhydeddus i'n hymgyrch ni drwy godi dros £500 yn eu Swper Cynhaeaf, ac mae'r casgliad yn tyfu'n raddol. Mae gyda ni tan mis Mehefin i gyrraedd ein nod o £5,000. Cofiwch am yr amlenni bach gwyn gydag "Apêl Madagascar" arnyn nhw. Gobaith yr Annibynwyr Cymraeg ydy codi £200,000 i gefnogi pedair elusen sy'n gweithio gyda'r tlawd a'r anghenus ym Madagascar, un o bedair gwlad dlotaf y byd.

CASGLIADAU DILLAD A NWDYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

TE PNAWN SUL TABERNACL YR AIS

Ar ôl dros chwarter canrif o drefnu prysur a dygn, mae Margaret Calvert wedi ymddeol o'r swydd allweddol hon, a'n diolch ni'n ddidwyll iddi am ddal ati mor hir! Diolch yn fawr iawn i ti Margaret.

Mae'r drefn yn gadarn yn ei lle drwy waith Margaret, a Gill Rees bellach yn ymgymryd â'r awennau, gyda help Eleri Jones a Sylvia Davies. Mae popeth yn ei le ar gyfer mis Chwefror yn barod, ond bydd angen gwirfoddolwyr bedair gwaith y flwyddyn, fel arfer.

AMLENNI BROWN 2018

Mae cyfanswm casgliad elusennau (yn yr amlenni brown) 2018 yn £3,050 gyda Chymorth Rhodd, sy'n golygu y byddwn yn cyflwyno dros £600 yr un i'r pump elusen. Bydd hyn yn gyfraniad sy'n medru gwneud gwahaniaeth. Diolch yn fawr iawn i chi am eich haelioni, sy'n gwneud hyn yn bosib.

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer arall ar wefan y capel: www.tabernacl.org

Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.

BANC BWYD TAF ELAI

Bu'r casgliad tridiau yn Tesco Tonysguboriau cyn y Nadolig mor brysur a chynhyrchiol ag erioed. Mae'r galw'n cynyddu'n barhaus, a'r Banc Bwyd erbyn hyn yn darparu cinio i blant adeg gwyliau ysgol. Diolch yn fawr iawn i'r criw mawr o'r capel fu yno'n helpu eto eleni. Mae aelodau Bethel Pontyclun yn wirioneddol falch o'n cefnogaeth.

Rhestrau: Blodau a Chroesawu 2019

Os hoffech gyfrannu blodau, neu wneud y croesawu wrth ddrws y ffyrnt ar fore Sul, plis torrwrch eich henw ar y rhestrau yn y cyntedd. Diolch. Croeso i bawb gyfrannu.

Dyfyniad yr Wythnos



"Ffordd o fyw yw Cristnogaeth – ffordd o fod yn y byd sy'n syml, yn ddi-drais, yn hael ac yn gariadus. Fodd bynnag, cafodd ei droi yn grefydd sefydliad (gyda phopeth sydd yn mynd gyda hynny) ac fe lwyddwyd i osgoi y mater o ffordd o fyw a ffordd o fod. Erbyn hyn, gallwch fod yn rhyfelgar, yn hunanol, yn hiliol, yn farus a materol a dal i 'gredu mewn Iesu yn Arglwydd'.....Cafodd y byd hen ddigon ar y fath dwpdra, Mae'r dioddefaint sydd yma yn ormod i'r fath grefydd gwag"

Y Tad Richard Rohr, Offeiriad Ffransiscaidd